Datganiad Cyfleoedd Cyfartal

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymrwymo i hybu cydraddoldeb wrth ddarparu gwasanaethau a chyflogi staff. Byddwn yn trin ein staff a'r cymunedau a wasanaethir gennym ag urddas a pharch, yn unol â'n Haddewid Plismona.

Deddfwriaeth Cydraddoldeb

Rydym yn cydnabod ein hymrwymiadau cyfreithiol dan y tair dyletswydd gyffredinol i hybu cydraddoldeb ym meysydd anabledd, rhyw a hil. Mae'r rhain yn cynnwys cyfrifoldeb i :

- Hybu cydraddoldeb o ran cyfle rhwng pobl
- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu
- Hybu perthynas dda rhwng pobl o wahanol grwpiau

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb anabledd yn rhoi'r cyfrifoldebau ychwanegol canlynol i ni:

- Cymryd camau i ystyried anableddau pobl anabl, hyd yn oed pan fydd hynny'n golygu eu trin yn fwy ffafriol nag eraill
- Hybu agweddau cadarnhaol tuag at bobl anabl
- Annog pobl anabl i gyfrannu i fywyd cyhoeddus

Yn unol â deddfwriaeth, mae'n ofynnol i ni, fel cyflogwyr, beidio â chamwahaniaethu yn erbyn pobl ar sail:

- Oed
- Anabledd
- Rhyw (gan gynnwys ailbennu rhywedd)
- Hil
- Crefydd neu gred
- Cyfeiriadedd Rhywiol

Mae deddfwriaeth hefyd yn bodoli i ddiogelu gweithwyr rhag cael eu trin yn llai ffafriol am eu bod yn gweithio rhan amser neu am gyfnod penodol. Dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae gennym hefyd gyfrifoldeb i roi statws cydradd i'r Gymraeg a'r Saesneg wrth gynnal ein busnes, ac i wella ein darpariaeth gwasanaeth i siaradwyr Cymraeg yn eu dewis iaith.

Rydym yn atggoffa bob Heddwas ac aelod o staff yr Heddlu am yr hyn a nodir yn Rheoliadau ac Amodau Gwasanaeth yr Heddlu ynghylch aelodaeth o sefydliadau a ystyrir yn annerbyniol. Mae unrhyw sefydliad sy'n annog camwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson ar sail hil, crefydd neu gred yn amlwg yn gweithredu'n groes i'r dyletswyddau cyffredinol i sicrhau cydraddoldeb hiliol. Gan hynny, mae'n annerbyniol i unrhyw aelod o wasanaeth yr heddlu fod yn aelod gweithredol o sefydliad felly.

Gall aelodaeth olygu cymryd rhan mewn gweithgareddau megis dosbarthu taflenni, mynychu cyfarfodydd, codi arian, siarad neu ysgrifennu erthyglau ar ran y sefydliad hwnnw. Mae'r gweithgareddau hyn yn dal i fod yn

DRAFT

annerbyniol p'un ai yw'r unigolyn yn aelod ffurfliol o sefydliad felly neu beidio. Nid yw'r rhestr hon o weithgareddau yn gyflawn.

Cydraddoldeb o ran Cyfle yn y Gweithle

Y nod wrth ddarparu cyfleoedd cyfartal yn y gweithle yw sicrhau bod pawb sy'n ymgeisio am swydd a gweithwyr sydd eisoes wedi cael eu cyflogi yn derbyn triniaeth deg ac anwahaniaethol.

Bydd y tegwch hwn yn cael ei ymgorffori yn y prosesau recriwtio, dethol, hyfforddi, dyrchafu, arbenigo, a datblygiad gyrfaoedd yn gyffredinol. Bydd hefyd yn llywio perthynas pob aelod o'r staff â'i gilydd.

Mae trefniadau recriwtio, dethol, hyfforddi, gwerthuso staff, a dyrchafu'r Heddlu yn cael eu harchwilio'n aml. Gwneir hyn er mwyn sicrhau fod unigolion yn cael eu dethol a'u dyrchafu ar sail teilyngdod, addasrwydd a chymhwysedd, yn amodol ar y cyfyngiadau a orfodir dan y gyfraith yn unig.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cydymffurfio â'r dyletswyddau monitro cyflogaeth, fel yr amlinellir yn y Cynllun Cydraddoldeb Sengl (Amcan 11). Mae hyn yn cynnwys monitro nifer y staff mewn swyddi sy'n fenywod, yn anabl neu'n perthyn i leiafrif ethnig.

Byddwn yn cymryd camau gweithredu priodol, gan gynnwys gweithredu cadarnhaol, i fynd i'r afael ag unrhyw dystiolaeth o anghymesuredd o ran recriwtio, cadw a datblygu ein staff.

'Gweithredu Cadarnhaol' yw'r term a ddefnyddir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb i ddisgrifio mesurau a ganiateir dan y gyfraith i annog pobl o grwpiau a dangynrychiolir i ymgeisio am swyddi, neu i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth i weithwyr a dangynrychiolir mewn meysydd gwaith penodol. Bydd meini prawf y swyddi hyn yn parhau i fod yn wrthrychol ac ni ddefnyddir gweithredu cadarnhaol wrth ddethol staff.

Cynllun Cydraddoldeb Sengl

Mae gan Heddlu Dyfed-Powys Gynllun Cydraddoldeb Sengl (2009 - 2012) sy'n nodi'r canlyniadau rydym yn gobeithio eu cyrraedd o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth, a sut rydym yn bwriadu eu cyflawni. Mae ein cynllun yn cydnabod y 7 'llinyn' neu faes amrywiaeth, sef: Oed, Anabledd, Rhyw (gan gynnwys y Trawsrywiol), Hil, Crefydd neu Gred, Cyfeiriadedd Rhywiol, a'r iaith Gymraeg.

Mae'r cynllun yn cynnwys manylion am sut rydym yn bwriadu hybu cydraddoldeb rhwng pobl – er enghraifft, rhwng pobl o wahanol grwpiau hil a rhwng dynion a menywod. Cyhoeddir ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl ar ein gwefan allanol ac ar ein mewnrwyd.

Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb

DRAFT

Grŵp Hyder a Chydraddoldeb yr Heddlu sy'n gyfrifol am sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau Cydraddoldeb. Y grŵp hwn sy'n monitro ein cynnydd yn erbyn ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl hefyd.

Mae pob Pennaeth Adran a Chomander Rhanbarthol yn gyfrifol am hybu ymrwymiad Heddlu Dyfed-Powys Police i gydraddoldeb, a byddant yn sicrhau ein bod yn cadw at, ac yn gweithredu'r ymrwymiad hwnnw, ac yn yn delio'n briodol ag unrhyw esgeulustod o ran hybu cydraddoldeb cyfle.

Byddwn yn sicrhau bod ein contractwyr a'n cyflenwyr hefyd yn gweithredu eu dyletswydd cydraddoldeb yn unol â'r datganiad hwn.

Mae gan bob Rheolwr Llinell a Goruchwylydd ddyletswydd i sicrhau eu bod hwy, a'u staff yn cydymffurfio â'r safonau ymddygiad a nodir yn y 'Safonau Ymddygiad Proffesiynol' ar gyfer Heddweision a Staff yr Heddlu. Ni oddefir unrhyw iaith, ddogfennau nac ymddygiad sy'n tramgwyddo yn erbyn y safonau hyn.

Cefnogir y datganiad hwn gan ein Cymdeithasau Staff, Grwpiau Cefnogi Staff ac Unsain, sy'n gysylltiedig â hybu cydraddoldeb o ran cyfle ar gyfer ein staff.

Er mwyn cyrraedd ei amcanion cydraddoldeb, bydd Heddlu Dyfed-Powys yn darparu gwybodaeth a chanllawiau am y dyletswyddau cydraddoldeb i staff perthnasol. Mae pob aelod o staff yn derbyn copi o'r Datganiad Cyfleoedd Cyfartal.

Torri Amodau Cydraddoldeb Cyfle

Gall unrhyw aelod o'r gweithlu sy'n ystyried bod rhywun wedi gweithredu'n groes i'r datganiad hwn dynnu sylw at y mater trwy gyfrwng Trefniadau Cwyno'r Heddlu, sydd i'w gweld ar ein mewnrwyd.

Mae gwasanaethau lles a chwnsela cyfrinachol a di-dâl hefyd ar gael i'n staff.

Fformatau Hygyrch

Os hoffech gael fersiwn print bras, Braille, neu sain o'r ddogfen hon, neu grynodeb ohoni mewn iaith arall, heblaw Cymraeg neu Saesneg, a fyddech gystal â chysylltu â'r Swyddog Amrywiaeth ar helen.morgan-howard@dyfed-powys.pnn.police.uk

DRAFT